# Uned 2: Lefel A Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## *2.2.2 Codau Ymarfer*

### Beth yw codau ymarfer?

**Codau ymarfer** neu **godau ymddygiad** yw'r safonau y disgwylir i weithwyr iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant (gan gynnwys athrawon) eu cyrraedd. Mae'r cod ymddygiad yn nodi'r ymddygiad a'r agweddau disgwyliedig y dylai'r sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth brofi wrth dderbyn darpariaeth gan weithwyr y gwasanaeth honno. Ystyrir bod codau o'r fath yn nodi'r arferion gorau.

Mae gan ddarparwyr gwasanaethau godau ymarfer sy'n benodol ar gyfer eu rolau swydd ac mae darparwyr yn ymrwymo iddyn nhw drwy gofrestru â chynghorau rheoleiddio. Os bydd unigolyn yn mynd yn groes i'r cod ymddygiad, bydd y cyngor rheoleiddio yn ymchwilio i'r mater a gallai hyn arwain at ddatgan nad yw unigolyn yn addas i ymarfer a'i ddileu oddi ar gofrestr y cyngor. Nod y codau ymarfer yw diogelu'r cyhoedd a sicrhau safonau priodol o fewn proffesiwn.

### Sicrhau Ansawdd

- Caiff **trefniadau sicrhau ansawdd a safonau** eu cynnal ym meysydd Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Plant ac Addysg. Gwneir hyn drwy fonitro prosesau, pennu safonau ac arolygu.
- Caiff y **GIG yng Nghymru** ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), y Comisiwn Ansawdd Gofal (Lloegr), yr Arolygiaeth Gofal (yr Alban) a'r Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (Gogledd Iwerddon).
- Caiff **gwasanaethau cymdeithasol** eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (Lloegr), yr Arolygiaeth Gofal (yr Alban) a'r Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (Gogledd Iwerddon).
- Caiff **addysg** ei harolygu gan Estyn (Cymru), Ofsted (Lloegr), Education Scotland (yr Alban) a'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant (Gogledd Iwerddon).

### Sut i gwyno am y GIG yng Nghymru

1. Codwch bryder â'r aelodau o staff sy'n rhoi'r gofal neu'r driniaeth dan sylw cyn gynted â phosibl.
2. Siaradwch â Rheolwr y Practis (ar gyfer meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr neu optegwyr) neu dîm pryderon/cwynion y Bwrdd Iechyd.
3. Gall y Cyngor Iechyd Cymuned gefnogi'r gŵyn a gweithredu fel eiriolwr os bydd angen.
4. Os na cheir ateb boddhaol, cysylltwch ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth neu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

### Sut i gwyno am Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

1. Darllenwch ganllawiau Cyngor Gofal Cymru ar ymarfer addas ar gyfer gweithwyr cymdeithasol.
2. Cysylltwch â'r Awdurdod Lleol a dilynwch ei weithdrefn gwyno (proses tri cham).
3. Os na chaiff y mater ei ddatrys, cysylltwch ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu Gofal Cymdeithasol Cymru.

### Sut i gwyno am y Gweithlu Addysg yng Nghymru

1. Cysylltwch â bwrdd llywodraethwyr yr ysgol.
2. Cysylltwch â'r Awdurdod Addysg Lleol a dilynwch ei weithdrefn gwyno.
3. Os na chaiff y mater ei ddatrys, cysylltwch ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu Gyngor y Gweithlu Addysg.

**Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth:** dyma'r rheoleiddiwr proffesiynol ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Mae'n cadw cofrestr ac yn pennu'r gofynion ar gyfer yr addysg broffesiynol sydd ei hangen ar nyrsys a bydwragedd er mwyn meithrin eu **gwybodaeth**, eu **sgiliau** a'u **hymddygiad**. Os codir pryderon difrifol am weithiwr proffesiynol sydd ar ei gofrestr, bydd yn ymchwilio i'r mater ac yn cymryd camau gweithredu.

**Y Cyngor Meddygol Cyffredinol:** yn amddiffyn cleifion ac yn gwella addysg ac ymarfer meddygol drwy gefnogi myfyrwyr, meddygon, addysgwyr a darparwyr gofal iechyd. Mae'n cadw cofrestr o feddygon ac yn ymchwilio i bryderon ynghylch gallu meddyg i ymarfer yn ddiogel. Mae'n darparu hyfforddiant a chymorth parhaus.

**Gofal Cymdeithasol Cymru:** mae'n cadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol (y cod) a Chanllawiau. Caiff hawliau'r cyhoedd eu hamddiffyn drwy ymchwilio i bryderon a thynnu gweithwyr proffesiynol oddi ar y gofrestr os nad ydynt yn addas i ymarfer.

**Cyngor y Gweithlu Addysg:** mae'n rheoleiddio'r gweithlu addysg yng Nghymru, gan gynnwys athrawon, staff cymorth dysgu, gweithwyr ieuenctid cymwysedig ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith. Mae'n gwella ac yn cynnal safonau addysgu ac ymddygiad proffesiynol. Mae'n diogelu buddiannau dysgwyr a rhieni drwy sicrhau y caiff codau ymddygiad eu dilyn a thrwy ymchwilio i honiadau o gamymddwyn proffesiynol.